# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 1 Mai 2018

Amser: 09.04 - 11.02

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4755

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David J Rowlands AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC |
| Tystion: | Nigel Brown, GCCLBT Cymru<br>Albert Heaney, Llywodraeth Cymru<br>Huw Irranca-Davies AC, Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kathryn Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Roedd Suzy Davies yn dirprwyo ar ran Janet Finch-Saunders o eitem 3.2.

# 2 Deisebau newydd

## 2.1 P-05-805 Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi

Datganodd Neil McEvoy y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae wedi gweithio fel athro cyflenwi o'r blaen.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf ac, yng ngoleuni'r ystod o faterion a phryderon a godwyd yn sgil y ddeiseb, cytunodd i ofyn i'r deisebwyr a oes atebion penodol i'r materion a godwyd yr hoffent i'r Pwyllgor eu trafod wrth barhau i ystyried y ddeiseb.

## 2.2 P-05-808 Ni ddylai Cymraeg fod yn orfodol i blant â dyslecsia ac anghenion arbennig

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- gofyn i gael gwybodaeth am lefel y gefnogaeth sydd ar gael wrth addysgu Cymraeg i ddisgyblion â dyslecsia a'r hyn sy'n digwydd mewn achosion eithafol lle nodir bod disgybl yn cael trafferth dysgu ail iaith; ac
- aros am farn y deisebydd am yr ymateb gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes cyn penderfynu a ddylid cymryd rhagor o gamau ynghylch y ddeiseb.

## 2.3 P-05-809 Is-ddeddfau Pysgota Arfaethedig Newydd a Methiannau Cyfoeth Naturiol Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- trafod y ddeiseb hon yn y dyfodol ochr yn ochr â P-05-810 Rhowch Gyfle i Glybiau Pysgota Cymru ac Eog a Brithyll y Môr;

- ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig i roi'r sylwadau manwl gan y deisebydd ar gyfer P-05-810 a gofyn am ddiweddariad ar ei hystyriaeth o gais Cyfoeth Naturiol Cymru i benderfynu ar is-ddeddfau.

### 2.4 P-05-810 Rhowch Gyfle i Glybiau Pysgota Cymru ac Eog a Brithyll y Môr

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- trafod y ddeiseb hon yn y dyfodol ochr yn ochr â P-05-809 Is-ddeddfau Pysgota Newydd Arfaethedig a Methiannau Cyfoeth Naturiol Cymru;
- ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig i roi'r sylwadau manwl gan y deisebydd a gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ei hystyriaeth o gais Cyfoeth Naturiol Cymru i benderfynu ar is-ddeddfau.

### 2.5 P-05-811 Rhoi'r gorau i ddefnyddio ardystiad gweithwyr ar brosiectau Llywodraeth Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i:

- geisio ymateb i'r sylwadau manwl gan y deisebydd a'r dull amgen arfaethedig; a
- gofyn a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud asesiad o effaith cynlluniau ardystio megis Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS) ar gostau yswiriant i unigolion neu gwmnïau.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-05-780 Ailagor Gorsaf Carno

Trafododd y Pwyllgor sylwadau gan y deisebwyr a chytunodd i ysgrifennu at:

- Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i rannu sylwadau'r deisebwyr a gofyn pryd, ac am ba resymau, y diwygiodd Llywodraeth Cymru ei pholisi mewn perthynas â chyllido'r broses o ddatblygu gorsaf newydd yn uniongyrchol; a

- Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i ofyn a yw'n bwriadu edrych ar fater cyllid Llywodraeth Cymru i ddatblygu gorsafoedd newydd yng Nghymru, gan gynnwys fel rhan o ystyried masnachfraint rheilffordd yn y dyfodol, neu a fyddai'n ystyried neilltuo amser i wneud hynny, yn ôl cais gan y deisebwyr.

### 3.2 P-04-481 Cau'r bwlch ar gyfer disgyblion byddar yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebwyr yn dilyn eu cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a chytunodd i gadw golwg ar hyn ac aros am ddiweddariad arall gan y deisebwyr, cyn ystyried y ddeiseb eto.

### 3.3 P-05-757 Cael gwared ar y rhwymedigaeth ar ysgolion i gynnal gweithredoedd addoli crefyddol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon ynghyd â P-05-765 Cadw canllawiau presennol ar gyfer Gwasanaethau Crefyddol a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu yn ôl at Ysgrifennydd y Cabinet i bwyso am ragor o eglurder ar yr amserlen ar gyfer darparu ymateb sylweddol; ac
- ystyried casglu rhagor o dystiolaeth ar ôl cael yr ymateb hwnnw.

### 3.4 P-05-765 Cadw canllawiau presennol ar gyfer Gwasanaethau Crefyddol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon ynghyd â P-05-757 Cael gwared ar y rhwymedigaeth ar ysgolion i gynnal gweithredoedd addoli crefyddol

a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu yn ôl at Ysgrifennydd y Cabinet i bwyso am ragor o eglurder ar yr amserlen ar gyfer darparu ymateb sylweddol; ac
- ystyried casglu rhagor o dystiolaeth ar ôl cael yr ymateb hwnnw.

### 3.5 P-05-783 Sicrhau Cydraddoldeb Cwricwlwm i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg e.e. Seicoleg TGAU

Nododd y Pwyllgor y byddai ganddo ddiddordeb mewn ystyried y materion a godwyd yn sgil y ddeiseb hon ymhellach a chytunodd i roi cyfle i'r deisebydd roi ei sylwadau mewn ymateb i'r ohebiaeth a gafwyd, ond cau'r ddeiseb yn y cyfarfod nesaf os na ddaw hyn i law.

### 3.6 P-05-802 Amddiffyn Maint Dosbarthiadau mewn Ystafelloedd Dosbarth a Gweithdai Dylunio a Thechnoleg

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghyd â sylwadau eraill gan y deisebydd a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i ofyn:

- a fydd ei hymrwymiad i atgoffa Penaethiaid, ac eraill, o'u dyletswyddau yn y maes hwn ar ffurf nodyn cyngor yn ôl cais y deisebydd; ac
- iddi roi copi ohono i'r Pwyllgor pan fydd wedi'i lunio.

### 3.7 P-05-781 Cymuned Port Talbot yn erbyn yr Archgarchar

Cytunodd y Pwyllgor i aros am ymateb y deisebydd i Ddatganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar Bolisi Cyfiawnder yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 6 Ebrill, cyn ystyried rhagor o gamau ar y ddeiseb.

### 3.8 P-05-800 Apêl Brys am Gomisiynydd Cyn-filwyr Cymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a chytunodd i aros am farn y deisebydd am hynny, ac am Ddatganiad Ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet ar 23 Ebrill, cyn ystyried a ddylai gymryd rhagor o gamau mewn cysylltiad â'r ddeiseb.

### 3.9 P-05-784 Dibyniaeth ar gyffuriau presgripsiwn ac effeithiau diddyfnu - adnabyddiaeth a chefnogaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law, a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn pryd y disgwylir i'r Fframwaith Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau gael ei gyhoeddi; a

- llunio llythyr drafft at Ysgrifennydd y Cabinet, gan amlinellu'r dystiolaeth a gafwyd ynghyd ag unrhyw argymhellion y bydd y Pwyllgor efallai am eu gwneud.

### 3.10 P-05-793 Band eang cyflym i bentref Llangenni

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebwyr a chytunodd i ysgrifennu'n ôl at Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip a BT Openreach, i ofyn iddynt hwyluso'r broses o osod band eang cyflym i'r pentref o ystyried sicrwydd blaenorol ei fod wedi'i wneud.

### 3.11 P-05-798 Gwasanaethau cymorth i ddynion sy'n ddioddefwyr trais yn y cartref i gael eu rhedeg a'u cyllido'n annibynnol

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Arweinydd y Tŷ a’r Prif Chwip ynghyd â sylwadau eraill gan y deisebydd a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- annog y deisebydd i gyfrannu i'r ymgynghoriad ar y canllawiau drafft ar gyfer comisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru; ac
- ysgrifennu at Arweinydd y Tŷ i ofyn am sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i geisio barn y rhai y mae cam-drin domestig yn erbyn dynion yn effeithio arnynt ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor am sut y mae wedi mynd i'r afael â cham-drin domestig yn erbyn dynion fel rhan o'r ymgynghoriad.

### 3.12 P-05-804 Mae angen cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarae!!

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a chan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, a chytunodd i aros am farn y deisebwyr am yr atebion a roddwyd gan y Gweinidog cyn ystyried cymryd rhagor o gamau mewn perthynas â'r ddeiseb.

## 4 P-04-479 Deiseb Adran Pelydr-X ac Uned Mân Anafiadau Ysbyty Tywyn

Nododd y Pwyllgor y ddau bapur.

## 5 Sesiwn Dystiolaeth - P-05-751 Cydnabod achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, Albert Heaney, a Nigel Brown.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Trafod Sesiynau Tystiolaeth Blaenorol

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu at y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol i ofyn am ragor o fanylion am fwriad Llywodraeth Cymru a CAFCASS Cymru yn y dyfodol i ddiwygio polisïau a llwybrau mewn perthynas â dieithrio plentyn oddi wrth riant, gan gynnwys hyfforddiant i staff; a
- cheisio barn y deisebwyr am y dystiolaeth ddiweddar a gafodd y Pwyllgor.

## 8 Trafod adroddiad drafft - P-05-785 Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd glannau Cymru ger Caerdydd

Cytunodd y Pwyllgor ar yr Adroddiad gyda rhai mân newidiadau.